



Gêm geirfa cynaliadwyedd

Amser yr awgrymir ar gyfer y gweithgaredd: 15 - 30 munud

Lleoliad Dan do neu yn yr awyr agored

Cyd-destun

Mae'r gweithgaredd hwn yn amlygu pwysigrwydd rheoli ein hadnoddau naturiol yn gynaliadwy, gan ganolbwyntio ar roi cyflwyniad sylfaenol i gynaliadwyedd a'r eirfa allweddol.

Diben Cyfoeth Naturiol Cymru yw ceisio rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy yn ei holl waith. Mae hyn yn golygu gofalu am yr aer, y tir, dŵr, bywyd gwyllt, planhigion a'r pridd i wella llesiant Cymru a rhoi dyfodol gwell i bawb.

Cwricwlwm i Gymru:

Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu	Gwyddoniaeth a Thechnoleg	Y Dyniaethau
Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae deall ieithoedd yn allweddol i ddeall y byd o'n hamgylch.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae bod yn chwilfrydig a chwilio am atebion yn hanfodol i ddeall a rhagfynegi ffenomenau.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae ein byd naturiol yn amrywiol a deinamig, wedi'i ddylanwadu gan brosesau a gweithredoedd dynol.
Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae mynegi ein hunain drwy ieithoedd yn allweddol i gyfathrebu.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae'r byd o'n cwmpas yn llawn pethau byw sy'n dibynnu ar ei gilydd i oroesi.	Yr hyn sy'n bwysig <ul style="list-style-type: none">Mae dinasyddion gwybodus, hunanymwybodol yn mynd i'r afael â'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu dynoliaeth, ac yn gallu cymryd camau ystyrlon ac egwyddorol.

Amcanion

Bydd dysgwyr yn gallu:

- Defnyddio geirfa allweddol sy'n gysylltiedig â datblygiad cynaliadwy.
- Trafod a dysgu am sawl agwedd ar ddatblygiad cynaliadwy.

Offer ac adnoddau a awgrymir

- [Cardiau adnoddau - Gêm geirfa cynaliadwyedd](#)



Gwybodaeth gefndirol

Mae'r gweithgaredd hwn yn gweithio'n arbennig o dda fel cyflwyniad i weithgareddau eraill sy'n canolbwyntio ar gynaliadwyedd.

Mae'r [Cardiau adnoddau - Gêm geirfa cynaliadwyedd](#) yn cynnwys 15 set o gardiau. Sylwch y gallwch dynnu geiriau penodol, eu diffiniadau a chardiau lluniau yn ôl i weddu i anghenion eich dysgwyr.

Mae pob set yn cynnwys:

- Gair sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd.
- Diffiniad o air sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd.
- Cerdyn llun sy'n darlunio gair sy'n gysylltiedig â chynaliadwyedd.

Awgrymiadau i gwblhau'r gweithgaredd hwn

- Gan ddefnyddio'r [Cardiau adnoddau - Gêm geirfa cynaliadwyedd](#), a all eich dysgwyr baru gair â diffiniad a llun enghreifftiol? Er enghraifft, gallai eich dysgwyr ddewis cerdyn ar hap, yna ei gylchredeg ymhlith eu cyfoedion, edrych ar gardiau ei gilydd a'u trafod i ddod o hyd i ddysgwyr â chardiau sy'n cyfateb i'w cardiau nhw.
- Efallai y byddwch chi'n dewis rhannu'r setiau o gardiau rhwng grwpiau bach o'ch dysgwyr i'w paru neu gallech chi roi'r un setiau o gardiau i grwpiau o ddysgwyr. Yna gallant gymharu sut maen nhw wedi paru'r cardiau a thrafod eu canfyddiadau.
- Pe bai eich dysgwyr yn elwa o ddysgu mwy gweithredol, gellir gwasgaru'r cardiau ar hap ar y llawr er mwyn i'r dysgwyr eu casglu a'u rhoi mewn trefn. Gallech chi chwarae gêm gyfnewid gystadleuol, gyda thimau o ddysgwyr yn rasio i baru'r cardiau'n gywir yn yr amser cyflymaf.
- Ydy hi'n well gyda nhw chwarae gemau cof? Gallech chi ddefnyddio'r cardiau adnoddau i chwarae setiau cof, gyda'ch dysgwyr yn cymryd tro i ddadorchuddio tri cherdyn ar y tro, gan gasglu setiau sy'n cyd-fynd nes bod yr holl gardiau wedi'u paru.
- A all eich dysgwyr gyflwyno eu cardiau ac egluro eu rhesymau dros baru? Ydyn nhw wedi paru'r setiau yn gywir?

Awgrymiadau ar gyfer cwestiynau allweddol

- Beth yw ystyr y gair hwn?
- Beth mae'r llun yn ei ddangos i ni?
- Beth ydych chi'n ei wybod am hyn?
- A allwch chi egluro beth mae hyn yn ei olygu?

Awgrymiadau ar gyfer addasu ar gyfer gwahanol anghenion/galluoedd

- Gallwch addasu i weddu i anghenion eich dysgwyr drwy leihau nifer y setiau neu hepgor y setiau yr ydych chi'n credu y bydd eich dysgwyr yn cael trafferth eu deall.
- Fe allech chi hepgor y cardiau diffiniad, felly dim ond y cardiau gair a llun sydd eu hangen ar y dysgwyr.
- A oes angen i chi gyflwyno setiau cardiau newydd fesul cam er mwyn i ddysgwyr allu dysgu'r eirfa newydd fesul cam?
- Gallech chi roi'r cardiau gair a llun i'ch dysgwyr ac ychwanegu cardiau gwag iddyn nhw ysgrifennu eu set eu hunain o gardiau diffiniad.
- A all eich dysgwyr awgrymu geiriau eraill y gellid eu hychwanegu?



Awgrymiadau ar gyfer gweithgaredd dilynol/estyniad

- Gallai eich dysgwyr ymchwilio i'r geiriau a ddefnyddir ar y we neu mewn geiriaduron i ehangu eu dealltwriaeth.
- A allai eich dysgwyr ddod o hyd i luniau eraill i wneud fersiwn gwahanol o'r gêm?

Adnoddau eraill

- Mae ein tudalen [Ynni gwyrdd](#) yn cynnwys amrywiaeth o gyfleoedd dysgu, gweithgareddau ac adnoddau cysylltiedig.

Efallai yr hoffech chi hefyd gymryd golwg ar ein hadnoddau eraill:

- [Cynllun gweithgaredd - Sut allwn ni fyw'n gynaliadwy?](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Y cylch rheoli coetiroedd yn gynaliadwy](#)
- [Cynllun gweithgaredd - Sut i gyfrifo'ch ôl troed carbon](#)

Dysgu yn yr amgylchedd naturiol, dysgu amdano a dysgu ar ei gyfer.

Chwilio am fwy o adnoddau dysgu, gwybodaeth a data?

Ewch i: <https://cyfoethnaturiol.cymru/dysgu>

Fformat gwahanol: print bras neu iaith arall, cysylltwch ag:
ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk, **0300 065 3000**

